# Arolygiad o Bractis Deintyddol Cyffredinol (lle rhoddwyd rhybudd)

Practis Deintyddol Beddau, Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf

Dyddiad yr arolygiad: 8 Awst 2017

Dyddiad cyhoeddi: 9 Tachwedd 2017

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:


**Y Rheolwr Cyfathrebu**

**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**
**Llywodraeth Cymru**

**Parc Busnes Rhyd-y-car**

**Merthyr Tudful**

**CF48 1UZ**


Neu drwy


**Ffôn: 0300 062 8163**

**E-bost: hiw@wales.gsi.gov.uk**

**Ffacs: 0300 062 8387**
**Gwefan: www.agic.org.uk**



ISBN Digidol 978-1-78859-386-1



© Hawlfraint y Goron 2017

## Cynnwys


1. Yr hyn a wnaethom ........................................................................................ 5

2. Crynodeb o'n harolygiad .................................................................................. 6

3. Yr hyn a ganfuom ........................................................................................... 8

   Ansawdd profiad y claf .......................................................................................9

   Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol ...................................................................13

   Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth ...........................................................19

4. Beth nesaf? ................................................................................................... 22

5. Sut rydym yn arolygu practisau deintyddol ...................................................... 23

   Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad..........24

   Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith ............................................................25

   Atodiad C – Cynllun gwella...............................................................................27

**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r corff annibynnol sy'n arolygu ac yn rheoleiddio gofal iechyd yng Nghymru**

# Ein diben

**Gwneud yn siŵr bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal da.**

# Ein gwerthoedd

- **Pwyslais ar y claf: rydym yn rhoi cleifion, defnyddwyr gwasanaeth a phrofiad y cyhoedd wrth wraidd yr hyn yr ydym yn ei wneud**
- **Uniondeb: mae ein ffordd o weithredu yn agored ac yn onest**
- **Annibynnol: rydym yn gweithredu a gwneud penderfyniadau gwrthrychol yn seiliedig ar yr hyn a welwn**
- **Cydweithredol: rydym yn datblygu partneriaethau effeithiol yn fewnol ac yn allanol**
- **Proffesiynol: mae ein dull gweithredu yn effeithiol, effeithlon a chyfrannol**

# Ein blaenoriaethau

**Ein nod trwy ein gwaith yw:**

| | |
|---|---|
| **Darparu sicrwydd:** | **Cynnig safbwynt annibynnol ar ansawdd y gofal.** |
| **Hybu gwelliant:** | **Annog gwelliant trwy adrodd a rhannu arfer da.** |
| **Dylanwadu ar bolisi a safonau:** | **Defnyddio'r hyn a welwn i ddylanwadu ar bolisïau, safonau ac arferion.** |

# 1. Yr hyn a wnaethom

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Bractis Deintyddol Beddau yn 1 The Crossroads, Beddau, Pontypridd, CF38 2AD, yn yr ardal a wasanaethir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf, ar 8 Awst 2017.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys dau arolygydd AGIC ac adolygydd cymheiriaid deintyddol.

Bu AGIC yn archwilio sut roedd y gwasanaeth yn bodloni'r Safonau Iechyd a Gofal (2015).

Gellir gweld manylion pellach ynglŷn â'n dull o gynnal arolygiadau deintyddol yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

## 2. Crynodeb o'n harolygiad

Ar y cyfan, gwelsom dystiolaeth fod Practis Deintyddol Beddau yn darparu gofal diogel ac effeithiol i'w gleifion.

Roedd y practis yn meddu ar gyfarpar da ac yn canolbwyntio ar y cleifion ac roedd ganddo'r polisïau a'r gweithdrefnau priodol ar waith i sicrhau diogelwch staff a chleifion. Roedd y rhain yn gynhwysfawr o ran cynnwys ac roedd staff yn gallu cael gafael arnynt yn hawdd. Cefnogwyd rhai polisïau diogelu, er enghraifft, gan wybodaeth hanfodol ar yr hysbysfwrdd yn yr ystafell staff.

Gwelsom dystiolaeth o systemau a phrosesau ar waith a oedd yn sicrhau bod y practis a'r staff yn derbyn cefnogaeth a'u bod yn ymrwymedig i ddarparu gwasanaeth o safon.

Cynhaliwyd cofnodion clinigol i safon uchel, yn ogystal â ffeiliau staff a gwybodaeth am y practis.

Canfuom fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Gwelwyd tystiolaeth o reolaeth ac arweinyddiaeth gref gan reolwr y practis a pherchennog y practis.
- Cynhaliwyd archwiliadau a oedd yn dangos tystiolaeth bod y practis yn ceisio gwella'i wasanaethau'n barhaus.
- Roedd yr ardaloedd clinigol i'w gweld yn lân ac yn daclus, roedd ganddynt gyfarpar da, ac roeddent wedi'u cynnal a'u cadw'n dda.
- Roedd cleifion yn cael eu trin â pharch ac yn derbyn gofal o safon dda.
- Yn ystod yr archwiliad, cymerodd y practis gamau gweithredu ar unwaith i ddatrys unrhyw broblemau cyn gynted ag y tynnwyd sylw atynt.

Gwnaethom argymell y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Er cysondeb, dylai fod gan yr holl bolisïau ddyddiadau adolygu a thystiolaeth bod yr holl staff wedi'u darllen.
- Dylid sicrhau bod pecynnau offer sydd heb gael eu dadheintio'n dangos y dyddiad y dylid eu defnyddio neu eu hailbrosesu erbyn.

# 3. Yr hyn a ganfuom

## Cefndir y gwasanaeth

Mae Practis Deintyddol Beddau yn darparu gwasanaethau ar gyfer cleifion yn ardal Beddau a'r cylch. Mae'r practis yn rhan o'r gwasanaethau deintyddol a ddarperir yn yr ardal sy'n cael ei gwasanaethu gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf.

Mae'r practis yn cyflogi tîm o staff sy'n cynnwys un deintydd, un nyrs ddeintyddol, dau dderbynnydd ac un rheolwr practis.

Mae'r practis yn darparu amrywiaeth o wasanaethau deintyddol y GIG ac, yn ogystal, gwasanaeth gwynnu dannedd preifat.

Mae gan Bractis Deintyddol Beddau chwaer ddeintyddfa gerllaw.

## Ansawdd profiad y claf

Gwnaethom siarad â chleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (lle'r oedd hynny'n briodol) i sicrhau bod safbwynt y cleifion yn ganolog i'n dull o arolygu.

Canfuom fod y practis yn ymroddedig i roi profiad cadarnhaol i'w gleifion. Aeth y practis ati i gael adborth gan gleifion drwy ddarparu ffurflenni adborth yn yr ystafell aros a gwahodd sylwadau ar lafar ac yn ysgrifenedig. Nododd y cleifion a ddarparodd sylwadau eu bod yn fodlon ar y gwasanaeth a'r driniaeth a gawsant. Gwnaethom argymell y dylai'r practis ddangos rhestr brisiau ar gyfer y triniaethau preifat sydd ar gael yn y practis.

Yn ystod ein harolygiad, gwnaethom ddosbarthu holiaduron AGIC ymhlith cleifion er mwyn casglu eu safbwyntiau am y gwasanaeth a oedd yn cael ei ddarparu yn y practis.

Gwnaethom dderbyn 20 o holiaduron wedi'u cwblhau, yn bennaf gan gleifion a oedd wedi bod gyda'r practis deintyddol ers dros ddwy flynedd.

Ar y cyfan, roedd yr adborth gan gleifion yn gadarnhaol. Gofynnwyd i'r cleifion yn yr holiaduron sut y gallai'r practis deintyddol wella'r gwasanaeth a ddarperir ganddo. Roedd rhai o sylwadau'r cleifion yn cynnwys y canlynol:

> *"Parhau i wneud pethau fel yr ydych yn eu gwneud"*
>
> *"Petai'r deintydd yn absennol, byddai'n dda darparu staff cyflenwi yn lle canslo'r ddau apwyntiad olaf"*
>
> *"Agor am oriau hwy – rhaid cael amser o'r gwaith i gael apwyntiad"*

### Cadw'n iach

Gwelsom fod nifer o daflenni gwybodaeth hybu iechyd ar gael yn y man aros. Roedd y rhain yn cynnwys taflenni, posteri a gwybodaeth benodol ynghylch triniaethau a gwybodaeth ataliol.

Roedd arwydd "dim ysmygu" wedi'i arddangos yn y man aros, a wnaeth gadarnhau'r pwyslais ar gydymffurfio â deddfwriaeth mangreoedd di-fwg.

Dywedodd pob claf ond un a gwblhaodd holiadur wrthym fod y tîm deintyddol wedi siarad ag ef ynghylch sut i gadw ei geg a'i ddannedd yn iach.

## Gofal ag urddas

Yn ddieithriad, roedd pob claf a gwblhaodd holiadur yn teimlo ei fod wedi cael ei drin â pharch wrth ymweld â'r practis.

Roedd derbynfa ac ardal aros y practis â chynllun agored. Dywedodd staff wrthym, os oedd angen cael sgwrs breifat gyda chlaf, y gallent ddefnyddio'r ystafell ar y llawr cyntaf, o olwg y dderbynfa a'r ardal aros. Gallai galwadau ffôn hefyd gael eu gwneud o olwg cleifion eraill, gan sicrhau preifatrwydd i'r claf.

Byddai'r drws i'r ystafell driniaeth ar gau pan fo claf yn derbyn gofal, er preifatrwydd ac urddas.

### Gwybodaeth i gleifion

Dywedodd pob claf a gwblhaodd holiadur wrthym ei fod yn teimlo'n rhan o'r penderfyniadau a wneir ynghylch ei driniaeth i'r graddau yr oedd yn dymuno, a'i fod wedi cael gwybodaeth glir am ei opsiynau triniaeth.

Er i bob claf a gwblhaodd holiadur ddweud bod cost unrhyw driniaeth yn cael ei hesbonio iddo cyn iddo dderbyn unrhyw driniaeth, dywedodd bron hanner o'r cleifion wrthym nad oeddent yn deall sut roedd cost eu triniaeth yn cael ei chyfrifo. Awgrymodd un claf yn yr holiaduron yr hoffai weld "taflen am gostau deintyddol".

Roedd gwybodaeth hyrwyddo iechyd deintyddol yn y man aros ynghyd â rhestr brisiau yn nodi costau triniaeth y GIG. Dywedodd staff wrthym fod oddeutu 1% o'r gofal a'r driniaeth a ddarperir gan y practis yn breifat. Ar adeg yr ymweliad, nid oedd unrhyw restr brisiau'n dangos costau triniaeth breifat. Trafodwyd hyn â staff, a gadarnhaodd y byddent yn arddangos yr holl gostau triniaeth.

Canfuom fod gwybodaeth am gleifion, mewn llawysgrifen ac yn electronig, yn cael ei storio'n ddiogel i sicrhau bod gwybodaeth bersonol a sensitif yn cael ei hamddiffyn.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae angen i'r practis arddangos rhestr brisiau o gostau triniaeth breifat.

### Cyfathrebu'n effeithiol

Gofynnwyd i'r cleifion yn yr holiaduron a oeddent yn siarad Cymraeg; gwnaeth y cleifion hynny a oedd yn ystyried eu bod yn siarad Cymraeg ddweud mai ar rai adegau'n unig yr oeddent yn gallu siarad â staff yn Gymraeg. Fodd bynnag, nododd y rhan fwyaf o gleifion di-Gymraeg ar yr holiadur eu bod bob tro'n gallu siarad â staff yn eu hiaith ddewisol, gydag un claf yn unig yn dweud nad oedd yn gallu gwneud hynny o gwbl.

Gwnaethom nodi fod staff y dderbynfa'n gwrtais wrth siarad â chleifion dros y ffôn.

## Gofal amserol

Dywedodd y rhan fwyaf o gleifion a gwblhaodd holiadur na fyddent yn gwybod sut i gael mynediad at y gwasanaeth deintyddol y tu allan i oriau pe byddai problem ddeintyddol frys ganddynt.

Gwnaeth y claf a awgrymodd yn yr holiaduron y byddai'n hoffi gweld taflen ar gostau deintyddol ddweud y byddai hefyd am weld rhif ffôn triniaeth ddeintyddol frys wedi'i gynnwys yn y daflen.

Canfuwyd gennym fod y practis yn gwneud ymdrechion i sicrhau bod cleifion yn cael eu gweld yn brydlon. Dywedodd y staff wrthym y byddent yn rhoi gwybod i'r cleifion pe bai deintydd yn rhedeg yn hwyr.

Dangoswyd manylion sut y gallai cleifion gael mynediad i ofal brys pan fo'r practis ar gau y tu mewn a'r tu allan i'r practis. Roedd y rhif hwn hefyd ar gael ar neges peiriant ateb y practis.

## Gofal unigol

### Cynllunio gofal i hybu annibyniaeth

Cadarnhaodd pob claf a gwblhaodd holiadur fod y deintydd yn holi am ei hanes meddygol cyn ymgymryd ag unrhyw driniaeth.

## Hawliau pobl

Roedd gan y practis bolisi cydraddoldeb ac amrywiaeth ar waith. Mae'r brif dderbynfa, y man aros ac un ystafell driniaeth, sydd ar y llawr gwaelod, yn hygyrch i gleifion ag anawsterau symudedd.

## Gwrando a dysgu o adborth

Dywedodd bron hanner y cleifion a gwblhaodd holiadur wrthym na fyddent yn gwybod sut i leisio pryder neu gwyno ynghylch y gwasanaethau maent yn eu derbyn yn y practis deintyddol.

Roedd gan y practis bolisi a gweithdrefnau cwyno ar waith sy'n ymwneud â'r GIG a thriniaeth breifat. Roedd y wybodaeth hon hefyd wedi'i harddangos yn ddwyieithog yn y man aros. Nid oedd poster na thaflenni "Gweithio i Wella"[1] ar gael yn y practis a chytunodd staff i gael y rhain gan y bwrdd iechyd.

Roedd gan y practis broses ar waith i gofnodi, monitro ac ymateb i unrhyw gwynion a phryderon a dderbyniwyd. Er ychydig iawn o gwynion a dderbyniwyd, sylweddolom fod eu ffeil, ym mhob achos, yn cynnwys copi o'r gŵyn, sut yr aed i'r afael â hi a'r ymateb terfynol. Rheolwr y practis sy'n gyfrifol am fonitro'r holl bryderon a'r cwynion a dderbynnir.

Roedd y practis yn annog adborth gan gleifion a gwnaethom nodi ei fod yn darparu ei ffurflenni adborth ei hun yn y man aros, ond nid oedd blwch na phin ar gael ar adeg ein hymweliad. Dywedodd y staff wrthym fod sylwadau llafar yn cael eu nodi a'u ffeilio'n briodol. Roedd y rhain hefyd yn cael eu monitro gan reolwr y practis.

Dim ond 12 o’r 20 claf a gwblhaodd holiadur a ddywedodd y gofynnir iddynt am eu safbwyntiau am y practis deintyddol – er enghraifft, trwy holiaduron i gleifion.

---

[1] "Gweithio i Wella yw’r prosesau integredig ar gyfer codi pryderon, ymchwilio iddynt, a dysgu ohonynt. Materion a nodir o ddigwyddiadau diogelwch cleifion, cwynion ac, o ran cyrff y GIG yng Nghymru, honiadau am wasanaethau a ddarperir gan gorff cyfrifol yng Nghymru yw pryderon.

## Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol

*Gwnaethom ystyried i ba raddau y mae gwasanaethau yn darparu gofal o ansawdd uchel, gofal diogel a gofal dibynadwy sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.*

Ar y cyfan, canfuom dystiolaeth bod y practis yn darparu gofal deintyddol diogel ac effeithiol i gleifion. Roedd y ddeintyddfa'n lân ac yn drefnus.

Gwelsom dystiolaeth fod cytundebau amrywiol ar waith er mwyn sicrhau bod yr amgylchedd a'r cyfleusterau yn ddiogel ac wedi'u cynnal a'u cadw'n dda.

Roedd y practis wedi adnewyddu ei ystafell ddadheintio oddeutu 12 mis yn ôl ac roedd gweithdrefnau rheoli heintiau wedi'u halinio i'r arweiniad priodol.  Gwnaethom nodi fod y practis wedi defnyddio offeryn archwilio Deoniaeth Cymru, a ystyrir yn ddangosydd o arfer da.

Roedd gan y practis bolisïau diogelu priodol ar waith ac roedd yr holl staff wedi derbyn hyfforddiant priodol mewn diogelu plant ac oedolion.

### Gofal diogel

#### Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch

Ar y cyfan, gwelsom fod trefniadau ar waith i amddiffyn diogelwch cleifion a staff sy'n gweithio yn y practis.

Ni chodwyd unrhyw bryderon gan gleifion ynghylch glendid y practis deintyddol; roedd yr holl gleifion a gwblhaodd holiadur, ac eithrio un ohonynt, yn teimlo, yn eu barn nhw, fod y practis deintyddol yn lân iawn.

Gwelsom fod profion dyfeisiau cludadwy wedi'u cynnal i sicrhau bod dyfeisiau trydanol bach yn cael eu defnyddio'n ddiogel yn y practis. Roedd diffoddwyr tân

ar y llawr gwaelod a'r llawr cyntaf a gwelsom dystiolaeth eu bod yn cael eu gwasanaethu'n rheolaidd.

Roedd contractau ar waith ar gyfer cael gwared ar wastraff peryglus (clinigol) a gwastraff nad yw'n beryglus (domestig). Yn ystod yr arolygiad, cyrhaeddodd bin gwastraff peryglus ac roedd yn cael ei leoli yng nghefn y practis. Cyn hyn, roedd gwastraff peryglus yn cael ei storio mewn cwpwrdd â chlo ar y llawr cyntaf.

Gwnaethom nodi fod gan y practis lyfr 'Adrodd ar Anafiadau, Clefydau neu Ddigwyddiadau Peryglus' (RIDDOR), sy'n cynnwys manylion cyswllt a phrotocolau'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch. Roedd polisi iechyd a diogelwch ar waith a gwnaethom nodi'r poster iechyd a diogelwch, ynghyd â gwybodaeth berthnasol, ar ddrws yr ystafell ddadheintio.

Roedd un toiled deuryw ag arwydd uwch ei ben ar y llawr cyntaf i staff a chleifion. Roedd i'w weld yn lân ac yn daclus. Oherwydd ei fod ar y llawr cyntaf, ni fyddai'r toiled yn addas i bobl mewn cadeiriau olwyn. Awgrymwyd i'r practis efallai y byddai am ystyried gosod rheiliau llaw i ddarparu peth cefnogaeth i gleifion â phroblemau symudedd. Gwelsom fod deunyddiau glanhau'n cael eu storio mewn cwpwrdd heb glo islaw'r basn golchi dwylo. Gwnaeth y staff symud y rhain i gabinet â chlo yn ystod yr arolygiad.

### Atal a rheoli heintiau

Roedd gan y practis gyfleusterau neilltuedig ar gyfer glanhau a sterileiddio (dadheintio) offer deintyddol, yn unol ag argymhellion Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05.[2] Roedd yr ystafell ddadheintio wedi cael ei hadnewyddu yn y 12 mis diwethaf. Rodd i'w gweld yn lân ac yn daclus a gwelsom dystiolaeth fod mesurau atal a rheoli heintiau ar waith.

Roedd offer deintyddol oedd wedi cael eu dadheintio'n cael eu cadw mewn bagiau wedi'u selio er mwyn atal croes-heintio. Ar adeg yr arolygiad, gwnaethom nodi nad oedd nifer o'r offer hyn mewn bagiau wedi'u dyddio. Dylai'r dyddiadau ar gyfer defnyddio neu ailbrosesu offer gael eu cofnodi ar y

---

[2] Mae dogfen Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM 01-05) (Diwygiad 1) yn cynnig canllawiau i weithwyr proffesiynol ar ddadheintio mewn practisau gofal sylfaenol a phractisau deintyddol cymunedol.

pecynnau yn unol â Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05. Ar ôl tynnu sylw'r nyrs ddeintyddol at hyn, symudodd hwy ar unwaith er mwyn eu hail-lanhau, eu sterileiddio a'u hailbecynnu'n gywir. Gwnaethom argymell fod y practis yn sicrhau fod yr holl staff clinigol yn y practis a'r chwaer bractis yn cael gwybod am hyn er mwyn sicrhau y dysgir gwersi.

Gwelsom dystiolaeth fod archwiliad rheoli heintiau wedi cael ei gynnal gan ddefnyddio dull archwilio Deoniaeth Cymru, sy'n cyd-fynd â chanllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05. Rydym yn cydnabod bod hyn yn arfer da am fod yr archwiliad yn ymdrin â chynnwys cynhwysfawr. Nid oedd yr archwiliad wedi'i ddyddio a gwnaethom awgrymu ei fod yn cael ei ddyddio'n glir i nodi amserlen yr archwiliad.

Roedd gan y practis bolisi dadheintio ar waith a gwelsom dystiolaeth fod gan yr holl staff clinigol dystysgrifau i gadarnhau bod eu hyfforddiant dadheintio'n gyfredol.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae angen i'r practis nodi dyddiad gwirioneddol yr archwiliad Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 i ddangos pryd y cafodd ei gynnal.

### Rheoli meddyginiaethau

Roedd gan y practis weithdrefnau ar waith i fynd i'r afael ag argyfyngau cleifion ac roedd yr holl staff wedi derbyn hyfforddiant dadebru cardio-pwlmonaidd. Rheolwr y practis oedd y swyddog cymorth cyntaf penodedig, ond oherwydd nad yw'n bresennol yn y practis ar bob adeg, roedd trefniadau ar waith i hyfforddi staff ychwanegol.

Gwelsom fod cyffuriau a chyfarpar brys yn cael eu storio'n briodol ac roedd tystiolaeth eu bod, yn unol â'r safonau a nodir gan Gyngor Dadebru'r DU,[3] yn

[3] Sefydlwyd Cyngor Dadebru'r DU i hyrwyddo canllawiau dadebru gwyddonol o ansawdd uchel sy'n berthnasol i bawb, ac i gyfrannu at achub bywydau trwy addysg, hyfforddiant, gwaith ymchwil, a chydweithrediad.

cael eu gwirio a bod cyffuriau a chwistrellau wedi mynd heibio eu dyddiad dod i ben yn cael eu disodli.

### Diogelu plant ac oedolion mewn perygl

Roedd gan y practis bolisïau a gweithdrefnau ar waith i hyrwyddo a diogelu lles plant ac oedolion agored i niwed ac roeddent yn cynnwys manylion cyswllt ar gyfer holl dimau diogelu priodol yr awdurdod lleol. Adlewyrchwyd yr wybodaeth hon mewn poster "Cysylltiadau mewn Argyfwng" a siart lif yn yr ystafell staff. Gwelsom dystysgrifau'n cadarnhau bod yr holl staff wedi derbyn hyfforddiant priodol.

Dywedwyd wrthym fod gwiriadau cyn cyflogaeth yn cael eu cynnal ar gyfer unrhyw aelodau o staff newydd cyn iddynt ymuno â'r practis, a gwelsom dystysgrifau Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar gyfer holl aelodau'r staff.

### Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol

Gwelsom fod y ddeintyddfa'n cynnwys offer priodol ar gyfer diogelwch cleifion a'r tîm deintyddol. Gwelsom fod y ddeintyddfa a'r cyfarpar yn amlwg yn lân iawn ac mewn cyflwr da. Gwelsom fod y ddeintyddfa wedi cael ei chynllunio a'i threfnu i sicrhau bod offer ymbelydredd yn cael eu defnyddio'n ddiogel. Roedd y practis wedi dechrau defnyddio offer pelydrau-X digidol yn ddiweddar.

Gwelsom ddogfennaeth i ddangos bod y peiriant pelydr-X yn cael ei wasanaethu'n rheolaidd a bod y Ffeil Amddiffyn Rhag Ymbelydredd yn cael ei chynnal a'i chadw ac yn cynnwys yr holl wybodaeth hanfodol. Yn unol â gofynion y Cyngor Deintyddol Cyffredinol[4] a Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000, roedd y staff a oedd yn rhan o'r broses o dynnu radiograffau wedi cwblhau'r hyfforddiant gofynnol.

Roedd yr holl gyfarpar dadheintio'n cael ei wirio'n rheolaidd ac roedd llyfrau cofnodi'n cael eu cynnal a'u cadw.

## Gofal effeithiol

[4] Cyngor Deintyddol Cyffredinol – http://www.gdc-uk.org/Pages/default.aspx

## Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Mae cleifion yn elwa ar bractis sy'n ceisio gwella'r gwasanaeth a ddarperir yn barhaus. Gwelsom dystiolaeth fod y practis wedi ymgymryd ag archwiliad rheoli heintiau a nifer o archwiliadau mewnol, gan gynnwys radiograffau a chofnodion meddygol. Roedd yn bleser gennym nodi fod perchennog y practis yn trefnu archwiliadau yn y dyfodol i gynnwys y chwaer bractis.

## Gwella ansawdd, ymchwil ac arloesi

Gwnaethom nodi fod staff clinigol yn y practis yn defnyddio offeryn datblygu ymarfer Deoniaeth Cymru, sef y Matrics Aeddfedrwydd ar gyfer Deintyddiaeth.[5] Offeryn datblygu tîm practis deintyddol yw Offeryn Hunanwerthuso'r Matrics Aeddfedrwydd ar gyfer Deintyddiaeth ac mae'n galluogi'r tîm i ganolbwyntio ar sut maent yn gweithio. Mae'n ymwneud â nifer o bynciau, gan gynnwys asesiad clinigol a rheoli risg clinigol, profiad y claf ac ymdrin ag adborth, dadhalogi a dadheintio, arfer yn seiliedig ar dystiolaeth, ac archwilio perfformiad clinigol. Dylai'r offeryn gynnwys holl aelodau'r tîm ac mae'n annog cyfrifoldeb a gwaith tîm. Ceir nifer o fanteision, gan gynnwys nodi arfer gorau, hyrwyddo cyfathrebu fel tîm, a chydnabod arfer gorau.

## Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg cyfathrebu

Roedd ffeiliau cleifion yn cael eu storio mewn modd priodol er mwyn sicrhau diogelwch data personol. Roedd gan y practis gyfuniad o gofnodion papur ac electronig a gwnaethom nodi ei fod yn storio'r cofnodion yn briodol i sicrhau diogelwch data personol.  Cafodd y ffeiliau electronig eu cadw'n rheolaidd a'u storio mewn cabinet gwrth-dân. Roedd mynediad i sgriniau cyfrifiaduron yn ddiogel ac yn gyfrinachgar.

---

[5] http://www.walesdeanery.org/index.php/cy/practice-quality-improvement-programme/deintyddiaeth-matrics-aeddfedrwydd.

Roedd gan y practis nifer o bolisïau a gweithdrefnau priodol ar waith, gan gynnwys polisi diogelu data a pholisi cyfryngau cymdeithasol.

Roedd y practis hefyd wedi datblygu taflen i gleifion yn nodi sut mae'n diogelu gwybodaeth am gleifion.

### Cadw cofnodion

Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion cleifion a gwnaethom siarad â'r ymarferydd deintyddol a pherchennog y practis ar ddiwrnod ein harolygiad. Ar y cyfan, canfuom fod y gwaith o gadw cofnodion a rhoi gofal i gleifion o ansawdd da. Roedd y nodiadau'n dangos bod gofal a thriniaeth wedi cael eu cynllunio er mwyn hyrwyddo diogelwch a lles cleifion.

Yn unol â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000, roedd y rhesymau dros gynnal y sganiau pelydr-X a'r hyn a ganfuwyd gan y deintyddion wedi cael eu cofnodi.

## Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

*Gwnaethom ystyried sut mae gwasanaethau'n cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn cefnogi darparu gofal diogel ac effeithiol. Gwnaethom hefyd ystyried sut mae gwasanaethau'n adolygu ac yn monitro eu perfformiad eu hunain ochr yn ochr â'r Safonau Iechyd a Gofal.*

Canfuom dystiolaeth o arweinyddiaeth dda a llinellau atebolrwydd clir. Mae rheolwr y practis yn gyfrifol am reolaeth feunyddiol y practis hwn a'r chwaer bractis ac roedd yn ceisio gwella prosesau yn y practis yn barhaus.

Mae gweithdrefnau rheoli cadarn ar waith er lles staff, gan gynnwys arfarniad staff blynyddol a chyflwyniad arfaethedig cyfarfodydd practis.

Roedd amrywiaeth gynhwysfawr o bolisïau a gweithdrefnau perthnasol ar waith ac yn cael eu cefnogi, lle y bo'n briodol, gydag arweiniad atodol a gwybodaeth gyswllt.

Roedd yr holl staff yn derbyn yr hyfforddiant angenrheidiol i'w rolau a'u cyfrifoldebau.

### Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd

Y prif ddeintydd sy'n berchen ar Bractis Deintyddol Beddau ac mae'n gweithio'n amser llawn yn ei chwaer bractis yn Nhonysguboriau. Gwelsom fod arweinyddiaeth dda a llinellau atebolrwydd clir yn y practis. Mae rheolwr y practis yn goruchwylio rheolaeth feunyddiol y ddau bractis, gan sicrhau ei bod yn treulio o leiaf un dydd yr wythnos yn y practis hwn. Gwnaethom nodi cydberthynas dda rhwng y staff yn y practis ac yn y chwaer bractis.

Gwelsom fod amrywiaeth eang o bolisïau a gweithdrefnau ar waith i sicrhau diogelwch staff a chleifion. Gwnaethom nodi, er bod rhifau fersiwn ar y dogfennau, nid oedd unrhyw ddyddiadau adolygu/cyhoeddi. Argymhellir, er cysondeb, fod gan yr holl ddogfennau ddyddiad cyhoeddi ac adolygu, gan sicrhau eu bod i gyd wedi'u diweddaru fel bod gan staff fynediad i'r wybodaeth berthnasol/gyfredol. Gwnaethom nodi yn ffeiliau'r staff fod tystiolaeth wedi'i

chofnodi i gadarnhau bod staff wedi darllen a deall rhai polisïau a gweithdrefnau allweddol.  Fodd bynnag, gwnaethom argymell y dylid cynnal y broses hon ar gyfer yr holl bolisïau a gweithdrefnau yn y practis i ddangos tystiolaeth o wybodaeth a dealltwriaeth.

Yr hyn y mae angen ei wella

Argymhellir, er cysondeb, y dylai'r holl bolisïau gynnwys dyddiadau adolygu ac y cedwir cofnodion i ddangos p’un a ydynt wedi cael eu darllen gan yr holl staff.

## Staff ac adnoddau

### Y gweithlu

Dywedodd rheolwr y practis wrthym ei bod yn y broses o gyflwyno cyfarfodydd tîm ffurfiol ac y byddent yn cael eu cofnodi. Yn y cyfamser, byddai unrhyw broblemau neu gamau gweithredu'n cael eu lledaenu i'r staff drwy e-bost a/neu'n cael eu cofnodi mewn llyfr cyfathrebu sy'n cael ei gadw yn y dderbynfa. Roedd hyn, yn benodol, yn galluogi i'r ddau dderbynnydd rhan-amser gyfathrebu'n effeithiol. Gwelsom fod yr holl staff wedi cael mynediad at amrediad o hyfforddiant, gan fodloni eu gofynion datblygiad proffesiynol parhaus. Yn ogystal, cynhelir hyfforddiant staff mewnol gyda staff y chwaer bractis.

Gwelsom dystiolaeth yn ffeiliau'r staff o broses gynefino ar gyfer staff. Defnyddiwyd nyrsys deintyddol o asiantaethau yn y gorffennol a chadarnhaodd staff eu bod yn sicrhau bod gan yr unigolion hyn y gwiriadau, y profiad a'r hyfforddiant perthnasol i gyflawni gofynion y practis. Roedd rheolwr y practis yn y broses o gyflwyno arfarniadau blynyddol ffurfiol i staff yn y practis a gwelsom dystiolaeth o'r rhai a oedd eisoes wedi'u cwblhau.

Dywedodd staff wrthym eu bod yn hyderus wrth godi unrhyw broblemau neu bryderon yn uniongyrchol gyda rheolwr y practis neu'r deintydd arweiniol.

Gwelsom fod y staff clinigol wedi cofrestru gyda’r Cyngor Deintyddol Cyffredinol i ymarfer ac roedd yswiriant indemniad ar waith. Roedd y deintydd yn y practis wedi darparu rhai gwasanaethau deintyddol preifat a gwelsom ei dystysgrif cofrestru gan AGIC wedi'i harddangos yn glir yn y ddeintyddfa.

Gwelsom fod pob aelod o'r staff wedi derbyn brechiadau rhag Hepatitis B, i amddiffyn eu hiechyd eu hunain ac iechyd cleifion rhag heintiau.

Yn unol â'r rheoliadau ar gyfer deintyddiaeth breifat, mae'n ofynnol i bob deintydd sy'n darparu gwasanaethau deintyddol preifat yng Nghymru feddu ar dystysgrif y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd wedi'i chyflwyno o fewn y tair blynedd diwethaf. Gwelsom dystiolaeth fod gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd wedi cael eu cynnal ar holl aelodau'r staff.

# 4. Beth nesaf?

Mae'r gwelliannau a'r pryderon uniongyrchol rydym wedi eu nodi yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch wedi'u manylu yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle bônt yn berthnasol):

- Atodiad A: Mae hwn yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon ynghylch diogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Mae hwn yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol ynghylch diogelwch cleifion lle'r ydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella ar unwaith gan ddweud wrthym am y camau brys mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Mae hwn yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle'r ydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella gan ddweud wrthym am y camau mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn

Dylai'r cynlluniau gwella:

- Ddatgan yn eglur pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn derbyn sylw, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion i roi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn derbyn sylw digonol

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth:

- Sicrhau nad yw canfyddiadau'n systemig ar draws mannau eraill o fewn y sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, i gadarnhau pan fydd y rhain wedi derbyn sylw

Bydd y cynllun gwella, unwaith y cytunir arno, yn cael ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

# 5. Sut rydym yn arolygu practisau deintyddol

Mae arolygiadau deintyddol fel arfer yn rhai lle rhoddir rhybudd. Mae practisau deintyddol yn derbyn hyd at 12 wythnos o rybudd am arolygiad. Mae hyn fel y bydd trefniadau yn gallu cael eu rhoi ar waith er mwyn sicrhau bod y practis yn rhedeg yn unol â'r arfer, a bod yr arolygiad yn peri cyn lleied o amhariad â phosibl i gleifion.

Mae adborth yn cael ei ddarparu i gynrychiolwyr y practis ar ddiwedd yr arolygiad, mewn modd sy'n cefnogi dysgu, datblygu a gwella ar lefelau gweithredol a strategol.

Rydym yn gwirio sut mae practisau deintyddol yn bodloni Safonau Iechyd a Gofal 2015. Bydd unrhyw ddeintydd sy'n gweithio yn y practis sydd wedi'i gofrestru gydag AGIC i ddarparu deintyddiaeth breifat hefyd yn ddarostyngedig i ddarpariaethau Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011. Lle bo hynny'n briodol, rydym yn ystyried sut mae'r practis yn bodloni'r rheoliadau hyn, yn ogystal â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 1999, Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000, ac unrhyw safonau a chanllawiau proffesiynol perthnasol eraill, megis 'Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol <https://www.gdc-uk.org/professionals/standards>.

Mae'r arolygiadau hyn yn cofnodi cipolwg o'r safonau gofal o fewn practisau deintyddol.

Ceir gwybodaeth bellach am sut mae AGIC yn arolygu practisau deintyddol a'r GIG ar ein gwefan.

## Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a gafodd eu huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith (bosibl) ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith yn ystod yr arolygiad.

| Pryderon dybryd a nodwyd | Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion | Sut y gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder | Sut y cafodd y pryder ei ddatrys |
|---|---|---|---|
| Ni nodwyd unrhyw bryderon dybryd yn ystod yr arolygiad hwn. | | | |

## Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith

## Gwasanaeth: Practis Deintyddol Beddau

## Dyddiad yr arolygiad: 8 Awst 2017

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon dybryd ynghylch diogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu brys y maent yn eu cymryd.

| Yr hyn y mae angen ei wella ar unwaith | Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| Ni nodwyd unrhyw broblemau sicrwydd ar unwaith. | Insert specific Health and Care Standard which applies | | | |

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

**Cynrychiolydd y gwasanaeth:**

**Enw (llythrennau bras):**

**Swydd:**

**Dyddiad:**

## Atodiad C – Cynllun gwella

## Gwasanaeth: Practis Deintyddol Beddau

## Dyddiad yr arolygiad: 8 Awst 2017

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu y maent yn eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

| Yr hyn y mae angen ei wella | Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| **Ansawdd profiad y claf** | | | | |
| Mae angen i'r practis arddangos rhestr brisiau o gostau triniaeth breifat. | 4.2 Gwybodaeth i gleifion | Yr unig driniaeth breifat a gynigir yn y practis yw gwynnu dannedd – ychwanegir y gost hon at y poster sy'n ei hysbysebu yn y dderbynfa. | Lowri Farr | I'w gwblhau erbyn mis Tachwedd 2017 |
| **Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol** | | | | |
| Mae angen i'r practis nodi dyddiad gwirioneddol yr archwiliad Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 i ddangos pryd y cafodd ei gynnal. | 3.3 Gwella ansawdd, ymchwil ac arloesi | Bydd holl archwiliadau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 yn cael eu dyddio a'u llofnodi gan y sawl sy'n ymgymryd â'r archwiliad.<br>Caiff yr archwiliad Memorandwm | Lowri Farr | I'w gwblhau erbyn Hydref 2017 |

| Yr hyn y mae angen ei wella | Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | | Technegol Iechyd Cymru 01-05 presennol ei ddyddio a'i lofnodi gan y sawl a ymgymerodd ag ef ym mis Mai 2017. | | |
| **Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth** | | | | |
| Argymhellir, er cysondeb, fod gan yr holl bolisïau ddyddiadau adolygu a thystiolaeth bod yr holl staff wedi'u darllen. | Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd | Caiff yr holl bolisïau eu dyddio wrth iddynt gael eu diweddaru dros y 12 mis nesaf. Mae ganddynt rifau fersiynau yn lle dyddiadau ar hyn o bryd.<br><br>Roedd y ddogfen sy'n cadarnhau bod yr holl staff wedi darllen y polisïau yn y ffeil ond nid oedd wedi'i llofnodi gan yr holl staff – byddant yn ei llofnodi ac yn ei dyddio i gadarnhau eu bod wedi darllen y polisïau. | Lowri Farr | O fewn y 12 mis nesaf, oherwydd y caiff polisïau eu hadolygu'n gyfnodol dros y cyfnod hwnnw.<br><br>Caiff tystiolaeth fod yr holl bolisïau wedi'u darllen gan y staff ei llofnodi erbyn mis Hydref 2017. |

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

## Cynrychiolydd y gwasanaeth

## Enw (llythrennau bras):Lowri Farr

## Swydd: Rheolwr y Practis

## Dyddiad: 13 Hydref 2017